

Diwygiedig Cynllun 2018-2033 Datblygu Lleol



Cyfrol 3
Ionawr 2021

Cyfrol 3 – Cynnwys

- Cofnodion 28/07/2020 tudalen 1
- Cofnodion 05/01/2021 tudalen 4

Mae'r Panel Ymgynghorol yn cynnwys Aelodau Cyngor Sir Caerfyrddin. Prif bwrpas y Panel yw derbyn perchenogaeth wleidyddol ar y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig a sicrhau bod y broses o lunio'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig yn cael ei rheoli yn unol â'r gweithdrefnau a'r protocolau perthnasol. Fe wnaeth y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 31 Gorffennaf 2017, wedi cymeradwyo cyfansoddiad y Panel.

Panel Ymgynghorol y Cynllun Datblygu Lleol

28 Gorffennaf 2020 - Cyfarfod 'Teams' Rhithwir - 3.30pm

1 Yn bresennol

1.1 *Y Cynghorwyr:* Mair Stephens (Cadeirydd), Sue Allen, Ieuan Davies, Tyssul Evans, Ken Howell, John James, Alun Lenny, Kevin Madge a Darren Price.

1.2 *Swyddogion:* Llinos Quelch - Pennaeth Cynllunio, Ian Llewelyn - Pennaeth Blaen-gynllunio, Simon Clement, Bethan Lovering, Robert Neil Bateman ac Owain Enoch - Swyddogion Blaen-gynllunio, Rhys T Evans - Swyddog Blaen-gynllunio Graddedig dan Hyfforddiant, Llinos Jones - Cynorthwydd Blaen-gynllunio.

1.3 *Eraill:* Cyfieithydd.

2 Croeso a chyflwyniadau

2.1 Croesawodd y Cyngorydd Mair Stephens bawb i'r cyfarfod.

3 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

3.1 Ruth Mullen.

4 Cofnodion

4.1 Roedd cofnodion cyfarfod y Panel a gynhaliwyd ar 24 Fedi 2019 wedi cael eu darparu i'r Aelodau cyn y cyfarfod er mwyn eu derbyn a'u nodi'n unig (roedd y cofnodion eisoes wedi'u cymeradwyo gan y Panel trwy e-bost yn flaenorol). Roedd y cofnodion hyn eisoes wedi bod trwy'r broses o gael eu hadrodd yn unol â Chylch Gorchwyl y Panel.

4.2 Penderfynwyd derbyn a nodi'r cofnodion.

5 Gohebiaeth a ddaeth i law

5.1 Derbyniodd yr aelodau ohebiaeth gan y Prif Gynlluniwr, y Gyfarwyddiaeth Gynllunio, Llywodraeth Cymru (dyddiedig 18/3/20) cyn y cyfarfod.

5.2 Derbyniodd yr aelodau ohebiaeth gan Julie James AS, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru (dyddiedig 7/7/20) cyn y cyfarfod.

5.3 Penderfynwyd derbyn a nodi'r ohebiaeth a ddaeth i law.

6 Paratoi CDLI diwygiedig

6.1 Derbyniodd yr aelodau adroddiad ysgrifenedig cyn y cyfarfod a ategwyd yn briodol gan y Rheolwr Blaen-gynllunio drwy roi trosolwg ar lafar. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod yr adroddiad yn mynd trwy broses adrodd y Cyngor. Ceisiai'r adroddiad ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau yng ngoleuni'r effaith a gododd yn sgil yr achosion o Covid-19, gan gyfeirio at lythyrau a gynhwysir o dan 5.1 a 5.2 uchod. Wrth nodi'r goblygiadau sy'n codi o gau'r swyddfeydd a'r adeiladau cyhoeddus o ganlyniad i'r achosion, cymeradwyodd Aelodau'r Panel fod ymgynghoriad 3 wythnos 'penodol' ychwanegol yn cael ei gynnal ynghylch cynnwys y CDLI Adneuo a'r dogfennau ategol. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau mai nod yr ymgynghoriad oedd mynd i'r afael ag unrhyw gwestiynau a heriau yn y dyfodol ynghylch y broses o lunio Cynllun.

6.2 Roedd yr adroddiad yn manylu ar amserlen y dyfodol a gynigiai estyniad o 7 mis i'r Cytundeb Cyflenwi yn ogystal â materion tystiolaethol - e.e. effaith ar ganol trefi, cyflogaeth, amcanestyniadau ac ati. Ar wahân i COVID-19, roedd goblygiadau Brexit yn parhau i fod yn

fater i'w ystyried. Roedd yr aelodau'n cydnabod yr angen i gynnig estyniad i'r amserlen o ran paratoi'r Cynllun gan gydnabod yr angen i sicrhau ei fod yn cael ei fabwysiadu cyn gynted â phosibl pe bai amgylchiadau'n caniatáu.

6.3 Trafododd y Panel gynnwys yr adroddiad yng nghyd-destun yr ohebiaeth a dderbyniwyd ac a ystyriwyd (cofnod 5). Roedd pryder ynghylch 'diffyg polisi' mewn perthynas â 'dyddiad disgyn yn farw' y CDLI cyfredol a phenderfynu ar geisiadau cynllunio. Roedd y Panel o'r farn mai'r opsiwn gorau fyddai rhoi pwys ar y Cynllun sy'n cael ei ddatblygu fel yr opsiwn a ffefrir gan y byddai wedi'i ddatblygu i raddau helaeth erbyn hynny. Os nad yw hynny'n bosibl, yna dylid defnyddio'r Cynllun Mabwysiedig cyfredol. Roedd gan y Panel bryderon sylweddol ynghylch gorfod dibynnu ar bolisi cenedlaethol yn absenoldeb unrhyw Gynllun lleol a fabwysiadwyd.

6.4 O ran etholiad Llywodraeth Lleol 2022, nododd Aelodau'r Panel y dylai'r Archwiliad o'r CDLI Diwygiedig fod wedi'i gwblhau cyn hyn beth bynnag. Hefyd, byddai argymhellion yr Arolygydd yn rhwymo'r Awdurdod. O ran hyd a natur yr Archwiliad, pwysleisiodd y Panel bwysigrwydd penodi Arolygydd a oedd yn gyfarwydd â'r Sir a'i hagweddau allweddol - e.e. siaradwr Cymraeg.

6.5 Gan gyfeirio at sylfaen dystiolaeth y Cynllun, dywedodd y Panel bod angen adolygu'r sefyllfa mewn perthynas â Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'r cynigion sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y Metro. Cyfeiriwyd hefyd at bwysigrwydd datblygu dealltwriaeth o'r farchnad dai ac unrhyw dueddiadau sy'n deillio ohoni (e.e. pobl sy'n ceisio symud o ardaloedd trefol). O ran tynnu sylw at adeiladu fel modd o arwain adferiad economaidd, pwysleisiodd y Panel ei bod yn bwysig deall a rheoli goblygiadau dull o'r fath mewn modd addas.

6.6 O ran y sylwadau a ddaeth i law ynghylch yr ymgynghoriad adneuo, dywedodd y Rheolwr Blaen-gynllunio y byddai'r rhain yn cael eu darparu i'r Aelodau maes o law a'u dadansoddi yn ôl polisi/ardal ddaearyddol. Nodwyd y cafwyd ymateb da i'r ymgynghoriad ac y derbyniwyd llawer o sylwadau.

6.7 Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a diolch i'r swyddogion am eu gwaith.

6.8 Penderfynwyd hefyd fod y cam o gynnal ymgynghoriad 'penodol' ychwanegol 3 wythnos o hyd ar gynnwys y CDLI Adneuo a'r dogfennau ategol yn cael ei gymeradwyo gan y Panel.

6.9. Penderfynwyd hefyd y dylai'r Panel anfon llythyr 'lobïo' at Lywodraeth Cymru yn gofyn am wneud darpariaeth i fynd i'r afael â'r mater 'dyddiad disgyn yn farw' (cyfeirir ato ym mharagraff 6.3). Nodwyd bod llwybrau eraill yn cael eu harchwilio hefyd - gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a bod yr adroddiad i'r Cyngor llawn mewn perthynas â'r CDLI Diwygiedig hefyd yn nodi argymhelliad i anfon llythyr tebyg.

6.10. Penderfynwyd ymhellach y dylai'r Panel anfon llythyr at yr Arolygiaeth yn pwysleisio pwysigrwydd penodi Arolygydd a oedd yn gyfarwydd â'r Sir a'i hagweddau allweddol - e.e. siaradwr Cymraeg.

7 Cylch Gorchwyl

7.1 Derbyniodd Aelodau'r Panel welliant drafft i'r Cylch Gorchwyl cyn y cyfarfod. Roedd hyn o ganlyniad i awgrym a wnaed gan uwch reolwyr (cyfarfodydd y Panel - gweler paragraff 3 o'r Cylch Gorchwyl). Byddai'r gwelliant yn dileu'r angen i holl gofnodion y Panel gael eu hadrodd i Rag-gyfarfod y Bwrdd Gweithredol ac yn lle hynny bydd y cofnodion yn cael eu hadrodd ar sail eithriad i Rag-gyfarfod y Bwrdd Gweithredol os oes materion penodol yn codi o drafodaethau'r Panel.

7.2 Penderfynwyd gwrthod y gwelliant a awgrymwyd yn 7.1 uchod.

7.3 Penderfynwyd hefyd, oherwydd y sefyllfa bresennol gyda COVID-19 a dyfodiad cyfarfodydd rhithwir ac ati, y dylid ychwanegu llinell ychwanegol i'r Cylch Gorchwyl i ganiatáu mwy o hyblygrwydd (cyfarfodydd y Panel - gweler paragraff 1 o'r Cylch Gorchwyl). Y geiriad fydd *“Os bydd angen cyfarfod brys, yna hepgorir yr hysbysiad ysgrifenedig o 10 diwrnod gwaith o gyfarfodydd a 7 diwrnod gwaith i roi'r agenda a'r Papurau perthnasol i Aelodau'r Panel, yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd y Panel”*.

7.4 Penderfynwyd hefyd nad oes unrhyw ofyniad i adroddiad y gwelliant i'r Cylch Gorchwyl i Rag-gyfarfod y Bwrdd Gweithredol .

8 Diwedd y cyfarfod a dyddiad y Cyfarfod Nesaf.

8.1 Daeth y cyfarfod i ben am 4:33 PM

8.2 Dyddiad y cyfarfod nesaf i'w gadarnhau - ond bydd yn cael ei alw pan fydd yr ymgynghoriad 3 wythnos ar y CDLI Diwygiedig adneuo yn hysbys.

Panel Ymgynghorol y Cynllun Datblygu Lleol
5 Ionawr 2021 - Cyfarfod 'Teams' Rhithwir - 2pm

1 Yn bresennol

1.1 *Y Cynghorwyr:* Mair Stephens (Cadeirydd), Sue Allen, Ieuan Davies, Tyssul Evans, Ken Howell, John James, Alun Lenny, a Darren Price.

1.2 *Swyddogion:* Llinos Quelch - Pennaeth Cynllunio, Ian Llewelyn - Rheolwr Blaen-gynllunio, Steven P Murphy - Uwch-gyfreithiwr, Gail Pearce Taylor - Swyddog Cymorth Cynaliadwyedd ac Ecoleg, Simon Clement, Bethan Lovering, Robert Neil Bateman ac Owain Enoch - Swyddogion Blaen-gynllunio, Rhys T Evans - Swyddog Blaen-gynllunio (Hyfforddai Graddedig), a Llinos Jones - Cynorthwydd Blaen-gynllunio.

1.3 *Arall:* Cyfieithydd.

2 Croeso a Chyflwyniadau

2.1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod.

2.2 Cafodd Gail Pearce Taylor ei chyflwyno a'i chroesawu fel Swyddog Cymorth Cynaliadwyedd ac Ecoleg newydd y Tîm Blaen-gynllunio.

3 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

3.1 Y Cyngorydd Kevin Madge.

4 Cofnodion - 28 Gorffennaf 2020

4.1 Roedd fersiwn drafft o'r cofnodion wedi'i roi i'r Aelodau cyn y cyfarfod.

4.2 Nododd yr Aelodau, mewn perthynas â pharagraff 6.3, fod gohebiaeth wedi dod i law gan Lywodraeth Cymru o ran materion 'dyddiad terfynol'.

4.3 Penderfynwyd cadarnhau'r cofnodion.

5 Derbyn ac ystyried adroddiadau ysgrifenedig ar y CDLI Diwygiedig

5.1 Cafodd yr aelodau gyfres o adroddiadau ysgrifenedig cyn y cyfarfod ac ategwyd y rhain yn briodol gan y Rheolwr Blaen-gynllunio drwy roi trosolwg ar lafar. Roedd yr adroddiadau'n cynnwys y sylwadau ac argymhellion/ymatebion swyddogion mewn perthynas â'r rhain o ran yr ymgynghoriad ynghylch y CDLI Diwygiedig, ynghyd â'r Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol, yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft Cilfach Tywyn a Chanllawiau Cynllunio Atodol Drafft Caeau Mynydd Mawr. Hefyd, darparwyd newidiadau â ffocws arfaethedig i'r Cynllun. Yn hyn o beth, roedd yr adroddiadau a ddarparwyd i'r Panel ar ffurf yr hyn a fydd yn cael ei adrodd i'r Cyngor llawn ar 13 Ionawr 2021. Nododd yr Aelodau y nifer sylweddol o sylwadau a gyflwynwyd o ran yr ymgynghoriad ar y CDLI Adneuo.

5.2 Cafodd materion strategol o bwys eu hamlygu a'u trafod. Y rhain oedd graddfa a lleoliad twf yn y CDLI Adneuo, materion manwerthu (gan gynnwys Gorchymyn Datblygu Lleol presennol Canol Tref Llanelli a Gorchymynion Datblygu Lleol arfaethedig ar gyfer Canol Trefi Caerfyrddin a Rhydaman), y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a nodi Llanelli fel ffocws ar gyfer twf, nodi 2 safle Sipsiwn a Theithwyr yn Llanelli yn y Cynllun Adneuo, gofynion tystiolaethol o ran y Gymraeg, Canllawiau Cynllunio Atodol Cilfach Tywyn a Chanllawiau Cynllunio Atodol Caeau Mynydd Mawr.

5.3 Gofynnodd yr Aelodau am eglurder ynghylch pa mor ymatebol yw'r fframwaith polisi cynllunio sy'n datblygu i ystyriaethau o ran seilwaith cymdeithasol / iechyd, y pwyslais cynyddol ar batrymau gweithio gartref, cynnwys y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol o ran ynni adnewyddadwy a'r patrymau sy'n newid ym maes manwerthu. Rhoddodd y Rheolwr Blaen-gynllunio ymateb ar lafar i'r ymholiadau a godwyd ac eglurodd y bydd y Cynllun yn ceisio bod mor ymatebol â phosibl. Yn hyn o beth, mae'r pwyslais ar sicrhau canlyniadau cytbwys sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

5.4 Rhoddwyd eglurhad ar y mapiau a fydd yn cyd-fynd â'r adroddiad i'r Cyngor ar 13 Ionawr 2021.

5.5 Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y bydd adroddiad ar faterion yn ymwneud â Mwynau yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 13 Ionawr 2021.

5.6 Eglurwyd bod yr adroddiad Astudiaeth Economaidd 'o ddwy Sir' yn cael ei ysgrifennu gan ymgynghorwyr. Y bwriad oedd cynnwys Cyngor Sir Ceredigion yn wreiddiol hefyd.

5.7 Rhoddodd y Swyddog Cymorth Cynaliadwyedd ac Ecoleg drosolwg llafar ynghylch y sylwadau a gafwyd ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

5.8 Penderfynwyd diolch i'r Tîm Blaen-gynllunio am ei waith a nodi'r adroddiadau a ddarparwyd.

5.9 Penderfynwyd ymhellach y byddai'r Rheolwr Blaen-gynllunio yn rhoi adborth yn sgil ymholiad a godwyd ynglŷn â fframwaith polisi'r CDLI Adneuo a'r Gymraeg.

6 Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod hwn

6.1 Penderfynwyd y gellir cymeradwyo cofnodion y cyfarfod hwn drwy e-bost ac felly caiff cofnodion drafft eu hanfon at yr Aelodau cyn gynted â phosibl.

7 Cylch Gwaith

7.1 Rhoddwyd y Cylch Gwaith fel y mae i'r Aelodau. Mae'r fersiwn hwn yn ymgorffori'r newidiadau amrywiol a wnaed ers iddynt gael eu cymeradwyo gyntaf ym mis Tachwedd 2017.

7.2 Roedd consensws o ran pwysigrwydd sicrhau bod Aelodaeth y Panel yn parhau ar gyfer gweddill proses baratoi'r Cynllun.

7.3 Wrth nodi bod y Cylch Gwaith yn gwneud darpariaeth i'r Panel chwarae rhan barhaus yn y gwaith o fonitro'r Cynllun ar ôl iddo gael ei fabwysiadu, cafwyd trafodaeth ynglŷn â rôl y Pwyllgor Craffu yn hyn o beth.

7.4 Penderfynwyd nodi'r Cylch Gwaith.

7.5 Penderfynwyd ymhellach y byddai'r Uwch-gyfreithiwr yn ceisio rhoi eglurder o ran rôl y Pwyllgor Craffu yng nghyd-destun cyfansoddiad y Cyngor.

8 Adrodd

8.1 Penderfynwyd y dylid cyflwyno cofnodion y cyfarfod hwn ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo (a chofnodion y cyfarfod ar 28/7/20), ynghyd â'r fersiwn ddiweddaraf o Gylch Gwaith y Panel, er gwybodaeth, cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.

9 Diwedd y cyfarfod a dyddiad y cyfarfod nesaf.

9.1 Daeth y cyfarfod i ben am 3:22pm.

9.2 Dyddiad y cyfarfod nesaf i'w gadarnhau.